

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

2 Tachwedd 2022

Annwyl Julie

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

Rwy'n ysgrifennu atoch ynglŷn â'r Memorandwm uchod, a drafodwyd yn ein cyfarfod ar 24 Hydref 2022.

Rydym yn nodi bod y Memorandwm yn cyfeirio ym mharagraff 3 at llythyr a ysgrifennwyd gennych at y Llywydd sy'n esbonio:

"... ei bod wedi cymryd amser i lawn ystyried yr effeithiau y bydd yr hyn a gynigir yn y Bil yn eu cael ar ddatganoli, a hynny oherwydd nad oedd Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu fawr ddim â ni cyn i'r Bil gael ei gyflwyno ac oherwydd bod y Bil yn un cymhleth. O'r herwydd, nid oedd modd gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o fewn y terfyn amser arferol o bythefnos a bennir yn RhS29."

Rydym yn siomedig â'r diffyg ymgysylltiad gan Lywodraeth y DU i egluro ei chynigion ac yn cydnabod y sefyllfa anodd i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i hynny.

Serch hynny, rydym yn pryderu, tua phedwar mis ar ôl cyflwyno'r Bil i Senedd y DU, bod cynnwys y Memorandwm a osodwyd gerbron y Senedd yn brin iawn o fanylion angenrheidiol nad ydym yn credu y byddai'n galluogi'r Senedd i lunio barn wybodus ar y mater o ran a ddylid rhoi cydsyniad ai peidio.

Rydym yn tynnu sylw at 20 o gwestiynau yn yr Atodiad i'r llythyr hwn sy'n gofyn am eglurhad ynghylch amrywiaeth o faterion. Yn ein barn ni, mae angen mynd i'r afael â'r ymatebion i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau hyn mewn Memorandwm diwygiedig.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb i'r llythyr hwn cyn gynted â phosibl, ynghyd â chadarnhad bod Memorandwm diwygiedig wedi'i osod neu y bydd yn cael ei osod gerbron y Senedd fel mater o frys.

Y dyddiad cau presennol ar gyfer adrodd yw 8 Rhagfyr 2022 ond mae ein gallu i gwrdd â'r dyddiad cau hwnnw wedi'i gyfyngu gan y sefyllfa rydym ni a phwyllgorau eraill yn ei hwynebu nawr. Wrth osod Memorandwm diwygiedig, felly, rydym yn credu y dylid ailystyried y dyddiad cau.

Rwyf felly yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes, yn ogystal â Chadeiryddion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Atodiad 1 – Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

1. A all y Gweinidog egluro'n llawn y gwahaniaeth barn rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch a oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Rhan 1 o'r Bil? Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â hyn?
2. A yw'r Gweinidog yn gallu darparu mwy o wybodaeth ynghylch polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â chynnwys cymalau 1-6 a'r rhesymau sylweddol dros ei hargymhelliad na ddylai'r Senedd roi cydsyniad i'r darpariaethau hyn?
3. A all y Gweinidog gadarnhau pam fod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cyfeirio at gymal 96 (Pleidleisiau Strydoedd) sydd angen cydsyniad ym marn Llywodraeth y DU, pan nad yw'r farn hon yn cael ei hadlewyrchu yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil?
4. A yw'r Gweinidog mewn sefyllfa i geisio eglurder ynghylch pam y mae Llywodraeth y DU wedi cynnwys cymal 78 fel un sy'n gofyn am gydsyniad yn y Nodiadau Esboniadol, pan mae cymal 78 yn dwyn y teitl "Power to require use of approved planning data software in England". A fwriedir i gymal 78 fod yn gymwys i Gymru neu a yw Llywodraeth y DU wedi nodi ar gam ei fod yn gymwys i Gymru?
5. A yw'r Gweinidog wedi codi'r anghysondeb rhwng y Nodiadau Esboniadol, yn union cyn paragraff 470, a'r Bil yng nghymal 77 ynghylch teitl cymal 77, lle mae'r Nodiadau Esboniadol yn cyfeirio at Loegr ond nad yw'r cymal ei hun yn cyfeirio ato? A yw'r Gweinidog yn hyderus bod y cymal hwn yn gymwys i Gymru?
6. A all y Gweinidog roi rhagor o fanylion am y pwerau newydd a ddarperir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Bennod 1 o Ran 3, cymal 96 a chymal 112, a chadarnhau pa effaith y byddai'r pwerau hyn yn ei chael yng Nghymru, gan gynnwys unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru?
7. A all y Gweinidog esbonio'r rhesymeg y tu ôl i'w datganiad ym mharagraff 58 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol bod "gan ddau faes, sef data cynllunio ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol, fuddion posibl i Gymru, ond mae'r ffordd y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd yn golygu na ellir gwireddu'r buddion hyn." Beth yw'r buddion posibl y cyfeirir atynt? Pam mae'r ffordd y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd yn golygu na ellir gwireddu buddion o'r fath?
8. A all y Gweinidog ddarparu gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r datganiad ym mharagraff 59 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n dweud "nid yw'r ffordd y mae'r pwerau ar ddata digidol wedi'u drafftio ar hyn o bryd yn cyd-fynd â'n dyhead i ddeddfu dros Gymru." Ym mha ffordd y mae'r ffordd y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd yn cael yr effaith hon? A yw'r cyfeiriad at "ddata digidol" yn gyfeiriad at ddata cynllunio?

9. Nid yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn dod i gasgliad clir o ran a yw'n briodol i bob un o'r cymalau ym Mhennod 1 o Ran 3, cymal 96 neu gymal 112 gael eu cynnwys yn y Bil, ac nid yw ychwaith yn cynnig argymhelliad clir ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad ai peidio i'r darpariaethau hyn. A all y Gweinidog gadarnhau'r sefyllfa yn hyn o beth?

10. A all y Gweinidog gadarnhau'r cymalau penodol y cyfeirir atynt ym mharagraffau 58 a 59 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol?

11. A all y Gweinidog gadarnhau pa gymalau y cyfeirir atynt fel "y cymalau mewn perthynas â chynllunio" ym mharagraff 64 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol? A yw hyn yn cynnwys cymal 112?

12. A all y Gweinidog ofyn am gadarnhad gan Lywodraeth y DU ynghylch sut y bydd y darpariaethau cynllunio yn gweithio'n ymarferol, gan gynnwys darparu dadansoddiad o'r cymalau mewn perthynas â chynllunio ac egluro sut y bydd darpariaethau'r Bil yn effeithio ar awdurdodau Cymru mewn termau real? A all y Gweinidog gadarnhau pwy, yng Nghymru, yr ystyrir ei fod yn 'awdurdod cynllunio perthnasol' at ddibenion y Bennod hon?

13. A all y Gweinidog gadarnhau pa ddarpariaethau yn Rhan 5 o'r Bil sy'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl a pha rai sy'n ymwneud â materion datganoledig, fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 49 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol?

14. Gan gyfeirio at baragraff 58 o'r Bil, a all y Gweinidog gadarnhau manylion y buddion posibl y mae'n rhagweld i system well o adroddiadau cynllunio amgylcheddol ac a gynhaliwyd trafodaethau gyda Llywodraeth y DU gyda'r bwriad o wireddu'r buddion hyn yn y Bil? A all y Gweinidog hefyd gadarnhau beth a olygir gan "adrodd ar ganlyniadau cynllunio" ym mharagraff 58?

15. A all y Gweinidog egluro sut mae'r darpariaethau presennol yn golygu bod Gweinidogion Cymru wedi colli eu gallu i wneud rheoliadau Cymru mewn perthynas ag adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol?

16. A all y Gweinidog nodi a roddir cefnogaeth ai peidio i gynnwys y darpariaethau yn Rhan 5 yn y Bil, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 29.3(iii), ac a ddylid rhoi cydsyniad ai peidio?

17. A all y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch cymalau 96 a 187?

18. A yw'r Gweinidog wedi trafod cymalau 80 a 121 o'r Bil â Llywodraeth y DU a cheisio diwygio'r darpariaethau i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU, o leiaf, gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau data cynllunio neu reoliadau adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol sy'n cynnwys darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd datganoledig Cymru? Beth fu canlyniad y trafodaethau hyn?

19. A oes gan y Gweinidog unrhyw farn ar gynnwys pwerau Harri VIII yng nghymalau 129 a 191 o'r Bil? A yw'r Gweinidog wedi trafod cymal 129 a/neu gymal 191 gyda Llywodraeth y DU i geisio eu diwygio neu eu dileu? Beth fu canlyniad unrhyw drafodaethau?

20. A all y Gweinidog fynegi unrhyw farn ar oblygiadau ariannol y Bil hwn i Gymru?

